# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL A.H.N.E LLŶN**

Dyddiad ac Amser

**4.00 y.h., DYDD MERCHER, 17EG TACHWEDD, 2021**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol / Virtual Meeting**

Pwynt Cyswllt

**Sioned Mai Jones**

**01286 679665**

**SionedMaiJones@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mawrth, 9 Tachwedd 2021)

# CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL A.H.N.E LLŶN

## AELODAETH

**Cynghorwyr Gwynedd**

**Anwen Davies**
**Simon Glyn**
**John Brynmor Hughes**
**Aled Wyn Jones**
**Gareth Williams**

**Eraill**

**Enwebeion Cynghorau Cymuned Aberdaron, Buan, Botwnnog, Clynnog, Llanbedrog, Llanaelhaearn, Llanengan, Nefyn, Pistyll a Thudweiliog.**

**Pencampwr Cefn Gwlad Cyngor Gwynedd**

**Enwebeion yr asiantaethau/sefydliadau canlynol**

**Ymddiriedolaeth Genedlaethol,**
**Cyfoeth Naturiol Cymru,**
**Fforwm Mynediad Arfon a Dwyfor,**
**Cyfeillion Llŷn,**
**Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr,**
**Undeb Amaethwyr Cymru,**
**Partneriaeth Dwristiaeth Abersoch a Llŷn,**
**Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig/CPRW,**
**Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd,**
**Cymdeithas Pysgotwyr Llŷn.**

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION — 4 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi'r cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 26 Mai 2021 fel rhai cywir.

## 5. BWS ARFORDIR LLŶN

Cyflwyniad llafar gan Cynan Jones, Ymgynghorydd.

## 6. SŴN AWYRENNAU DROS AHNE LLŶN — 10

Morus Dafydd, Swyddog Prosiect AHNE i roi adroddiad ar Sŵn Awyrennau dros AHNE Llŷn.

## 7. PARTNERIAETH GWYRDDNI — 11 - 13

Adroddiad gan Swyddog Prosiect GwyrddNi, Elis Smits.

## 8. DYNODIAD AWYR DYWYLL — 14 - 15

Bleddyn Jones, Swyddog AHNE i roi adroddiad ar Ddynodiad Awyr Dywyll.

## 9. PROSIECTAU CYFALAF — 16 - 17

Bleddyn Jones, Swyddog AHNE i roi adroddiad ar Brosiectau Cyfalaf.

# CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL LLŶN 26/5/2021

**Yn bresennol**:

Cyng. Gruffydd Williams (Cadeirydd)

**Aelodau:** Y Cynghorwyr Simon Glyn, John Brynmor Hughes, Gareth Williams, Aled Wyn Jones, Angela Russell, Annwen Davies (Cyngor Gwynedd) ynghyd â Noel Davey (Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig), T. Victor Jones (Cyngor Cymuned Llanbedrog), Sian Parri (Cyngor Cymuned Tudweiliog), Morgan Jones-Parry (Fforwm Mynediad Arfon a Dwyfor), Molly Lovatt (Cyfoeth Naturiol Cymru), Andrew Davidson (Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd), Andy Godber (Ymddiriedolaeth Genedlaethol), John Gosling (Partneriaeth Dwristiaeth Abersoch a Llŷn) ac Eirian Allport (Cyngor Cymuned Clynnog Fawr), Jina Gwyrfai (Cyngor Cymuned Llanaelhaearn), Wenda Williams (Cyngor Cymuned Aberdaron).

**Swyddogion:** Bleddyn P. Jones (Swyddog Gwasanaeth AHNE), Elin Wyn Hughes (Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn), Wyn Williams ( Rheolwr Cefn Gwlad), Natalie Lloyd Jones (Swyddog Gwasanaeth Democratiaeth).

**1. ETHOL CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Gruffydd Williams yn gadeirydd ar gyfer y cyfnod 2021/22.**

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd T. Victor Jones yn Is-gadeirydd ar gyfer y cyfnod 2021/22.**

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gillian Walker (Cyfeillion Llŷn).

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi.

**5. MATERION BRYS**

Rhannwyd mater a godwyd wedi i'r rhaglen gael ei chyhoeddi ynghylch awyrennau sy'n hedfan o Fali dros yr ardal ac yn amharu ar dawelwch.

Nodwyd bod trafodaeth yn Senedd San Steffan wedi bod gyda'r gweinidog dan sylw yn egluro bod y mater o hedfan dros y môr ar fin cael ei ddatrys. Fodd bynnag, fel rhan o hyfforddiant bydd rhaid hedfan dros y tir o dro i dro.

Cynigwyd bod y Cydbwyllgor yn anfon llythyr yn nodi eu pryderon ynghylch yr ymyrraeth.

**PENDERFYNIAD:**

**Penderfynwyd ysgrifennu lythyr fel pwyllgor er mwyn datgan pryder am y sefyllfa o'r awyrennau o RAF Y Fali yn hedfan dros Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.**

## 6. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Cydbwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2021, fel rhai cywir ac eithrio'r canlynol:

- Ysgrifennwyd llythyr at Lywodraeth Cymru yn datgan pryder ynghylch y sefyllfa ail gartrefi a rhannwyd yr ymateb a gafwyd gan y Gweinidog.
- Atodwyd bod ymddiheuriadau wedi eu derbyn gan Wenda Williams ar gyfer y cyfarfod brys
- Gofynnwyd a oes diweddariad ar yr Eitem Dynodiad Awyr Dywyllo 18fed o Dachwedd,2020 gan nad oedd cworwm i benderfynu yn ystod y cyfarfod. Sicrhawyd y bydd yr eitem hon yn dychwelyd gerbron y Cydbwyllgor yn y cyfarfod nesaf.

## 7. MATERION CENEDLAETHOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Swyddog Gwasanaeth AHNE yn diweddaru'r Cydbwyllgor ar faterion lefel cenedlaethol fel a ganlyn:
- Yn dilyn etholiadau Seneddol, cyhoeddwyd mai Julie James yw'r gweinidog newydd sy'n gyfrifol dros AHNE.
- Soniwyd am Bartneriaeth Tirweddau Dynodedig Cenedlaethol sydd a'r bwriad o helpu cydweithio rhwng yr ardaloedd.
- Rhoddwyd gwybodaeth ynghylch y Grant Gyfalaf Gwelliannau Amgylcheddol gan nodi bod manylion pellach i gael ar y we ar gyfer y 3 prosiect dan sylw.
- Nodwyd bod toriad yng nghyllid gan Cyfoeth Naturiol Cymru eleni, fodd bynnag mae cronfa ategol wedi ymddangos sydd yn mynd i gefnogi prosiectau sy'n ymwneud yn benodol a Natur a Bioamrywiaeth.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn gan aelodau:-
- Gofynnwyd at ba bwrpas mae arian o'r gronfa newydd yn cael ei dynodi gan fod amryw o brosiectau lleol ar y gweill.
- Gofynnwyd am fwy o fanylion ar welliannau yn Nhrefor

Mewn ymateb nodwyd:
- Bod y gronfa ar gyfer gwydnwch bioamrywiaeth ac ecosystemau a bod yr uned AHNE yn gweithio ar gynigion i roi gerbron Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Bod cynlluniau Trefor yn gychwynnol yn unig gyda bras amcan o beth sydd angen ei wneud fel tacluso, gosod meinciau newydd, adnewyddu rheiliau.

## 8. DIWEDDARIAD AR Y GRONFA DATBLYGU GYNALIADWY

Cafwyd diweddariad ar y Gronfa Datblygu Gynaliadwy a thynnwyd sylw at y gwariant sef bod £87,500 wedi ei hawlio allan o £100,000. Eglurwyd bod y tanwariant o ganlyniad i brosiectau yn cael eu hatal oherwydd Covid-19, fodd bynnag rhannwyd gyda'r Cydbwyllgor rhai o'r prosiectau llwyddiannus.

Rhannwyd gyda'r Cydbwyllgor bod £100,000 yn y gronfa eto eleni a hyd hyn gyda'r prosiectau a dderbyniwyd, mae £15,000 yn weddill. Argymhellwyd bod aelodau'r Cydbwyllgor yn rhannu gyda'u sefydliadau bod arian ar ôl.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn gan aelodau:-
- Gofynnwyd pa bryd agorodd y gronfa ddiweddaraf ar gyfer ceisiadau gan mai dim ond 15,000 sydd ar ôl, ac ym mhle mae'n cael ei hysbysebu.
- Eglurwyd un aelod bod arian ar ôl o ganlyniad 'r panel grantiau yn penderfynu gwrthod cais gan sefydliad sydd â chronfeydd arian sylweddol.
- Awgrymwyd y dylai'r Cydbwyllgor cael cyfle i ystyried ceisiadau neu i'r Swyddog Gwasanaeth AHNE rhannu camau yn y fframwaith efo'r holl aelodau fel eu bod yn ymwybodol o'r meini prawf.

Mewn ymateb, nodwyd:
- Bod y gronfa yn agor yn gynnar er mwyn derbyn ceisiadau a'u cymeradwyo fel bod gan y derbynwyr ddigon o amser ar gyfer cyflawni eu prosiectau a hefyd fel bod y risg o danwariant yn is.
- Y caiff y gronfa ei hysbysebu'n eang ymysg yr ardal a bod gwybodaeth yn cael ei rannu gyda chynghorau lleol.
- Bod ceisiadau yn cael eu hystyried gan yr uned AHNE ac yna gan y Panel Grantiau felly mae llais y Cydbwyllgor yn fan hyn.
- Y gallai cynnig hyfforddiant i aelodau fedru rhoi sylwadau ar brosiectau

## 9. BRYNGAER DINAS DINLLE

Croesawyd cynrychiolydd yr Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd i drafod sefyllfa'r Fryngaer yn Ninas Dinlle. Codwyd y pryder ynghylch cyflwr presennol y Fryngaer a'r dirywiad oherwydd erydiad. Ategwyd nad oedd yr ardal yn rhan o'r AHNE fodd bynnag oherwydd ei phwysigrwydd hanesyddol i'r ardal gyfan mae angen sylw.

Eglurwyd bod y safle wedi cael ei gloddio yn y gorffennol er mwyn monitro'r erydiad sy'n dod o gyfeiriad y caeau o ganlyniad i'r glaw, ac nid o'r môr. Aethpwyd ati i egluro bod angen ymgymryd â'r mater o safbwynt mewndirol. Ategwyd bod hwn yn broses sydd wedi bod yn digwydd ers canrifoedd a bod angen cloddio cyn i'r dirywiad gwaethygu.

Cafwyd safbwynt ychwanegol gan gynrychiolydd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, sef rheolwyr y tir, sef bod angen cloddio er mwyn cael gymaint o wybodaeth am y safle ag sy'n bosib gan fydd y safle yn cael ei golli yn y dyfodol. Ategwyd bod yr ardal yn erydu'n gyflym iawn

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn gan aelodau:-
- Mynegwyd pryder yn yr achos yma gan fod y safle yn un o bwys eithriadol mewn perthynas â hanes yr ardal a hanes Cymru.

- Gofynnwyd a oes posibilrwydd gosod mwy o gerrig mawr mewn ymgais i atal colli'r Fryngaer.
- Gofynnwyd be allai'r Cydbwyllgor ei wneud er mwyn sicrhau bod ymyrraeth yn digwydd.
- Awgrymwyd ysgrifennu at y sefydliadau sy'n rheoli'r safle er mwyn mynegi barn y Cydbwyllgor.
- Cynigwyd bod Andrew Davidson, fel arbenigwr, yn cynnig ei arbenigedd ar y pwnc gan ei fod yn ardal llawn archaeoleg a phwysigrwydd.

Mewn ymateb:

- Cytunwyd bod y safle yn un nodedig efo'r pwysigrwydd i hanes Cymru a'r ardal leol
- Awgrymwyd mai CADW yw'r pwynt cyswllt y dylai gyfeirio unrhyw ohebiaeth i fynegi pryder ar y mater, neu'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol fel rheolwyr.
- Nodwyd bod modd cysylltu'n fewnol gyda'r adran YGC am eu barn a'r sefyllfa.
- Cytunwyd Andrew Davidson i gynnig ei arbenigedd.

**PENDERFYNIAD**

**Penderfynwyd y byddai'r Swyddog Gwasanaeth AHNE, Prif Archeolegydd, Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd a Chynrychiolydd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn cwrdd i drafod ymhellach gyda Phennaeth YGC ynghylch datgan dymuniadau'r Cydbwyllgor i warchod y safle hwn rhag difrod.**

## 10. ADEILADAU RHESTREDIG A TRADDODIADOL

Yn dilyn y cyfarfod arbennig a gafwyd er mwyn drafod cais cynllunio Tan y Mynydd, gofynnwyd Swyddog Gwasanaeth AHNE am farn y Cydbwyllgor ac am unrhyw awgrymiadau i uned polisi Gwynedd i adolygu'r polisi cyfredol.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn gan aelodau:-

- Cyfeiriwyd at Bolisi 7 (Polisi Datblygu Parc Cenedlaethol Eryri) gan nodi bod angen un tebyg ar gyfer ceisiadau mewn AHNE.
- Nodwyd nad oes lle i ddisgresiwn unigol swyddogion pan mae'n dod at foderneiddio tŷ traddodiadol
- Cyfeiriwyd at obaith dynodiad Awyr Dywyll yn yr AHNE ac na fydd hyn yn bosib petai adeiladau modern gyda ffenestri mawr yn cael eu caniatáu.
- Ategwyd bod sefyllfa gyda chais Tan y Mynydd yn dangos bod angen polisi mwy cadarn, fel nad oes niwed i'r adeilad traddodiadol na'r dirwedd amgylchynol.
- Gofynnwyd a oes modd i aelodau'r Cydbwyllgor roi eu barn ar geisiadau cynllunio perthnasol.

Ychwanegwyd y Swyddog Gwasanaeth AHNE ei bod yn ceisio cael canllawiau cynllunio ychwanegol yn yr AHNE a'i fod wedi codi hyn efo'r uned bolisïau felly maent yn bwriadu gweithredu ar hyn.

**PENDERFYNIAD**

**Penderfynwyd mabwysiadu Polisi Datblygu 7 Eryri ar gyfer ystyried ceisiadau yn yr AHNE o hyn ymlaen (sef diwrnod y cyfarfod) a'i fod yn cael ei ystyried wrth adolygu polisïau cynllunio Gwynedd.**

## 11. CEISIADAU AM GANIATÂD CYNLLUNIO

Arweiniwyd y drafodaeth ar yr eitem gan Swyddog Gwasanaeth AHNE wrth atgoffa'r aelodau bod trefn eisoes yn bodoli lle mae'r adran gynllunio yn ymgynghori efo'r uned AHNE mewn achos ceisiadau o fewn yr ardal neu yn agos wrth y ffin os yn debygol i ymyrryd arno.

Eglurwyd y drefn cynllunio mewn perthynas â cheisiadau yn yr AHNE a phwysleisiwyd bod gan gadeirydd y Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn hawl i alw cyfarfod o is-grŵp i drafod a chynnig sylwadau ffurfiol ar ran y Cydbwyllgor, os yw'r cais yn debygol o effeithio ar yr AHNE.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn gan aelodau:-

- Mynegwyd pryder gan fod achosion wedi codi yn y gorffennol lle nad yw'r aelodau'r Cydbwyllgor yn cytuno a barn Swyddog AHNE Llyn na'r Swyddog Cynllunio.
- Ategwyd bod angen hawl ar aelodau'r Cydbwyllgor i alw cyfarfod yn ogystal a'r Cadeirydd.
- Teimlwyd nad oedd gan aelodau'r Cydbwyllgor llais os nad oes modd cael mynegi barn ar gais cynllunio dadleuol.
- Gofynnwyd gan un aelod faint o geisiadau'r wythnos sy'n berthnasol i'r AHNE, ac oes modd copïo sylwadau'r Swyddog Gwasanaeth AHNE i aelodau'r Cydbwyllgor fel ein bod yn medru ymateb.

Mewn ymateb, nodwyd:

- Bod amser yn brin gyda cheisiadau ac mae'n gymhleth ac yn ychwanegu at lwyth gwaith i gynnal cyfarfodydd ychwanegol.
- Tua 120 o geisiadau sy'n ymwneud a'r AHNE sy'n dod yn flynyddol.
- Pryder o rannu sylwadau a derbyn sylwadau yn ôl gan aelodau unigol y Cydbwyllgor gan fuasai hyn yn ychwanegu at lwyth gwaith yn ormodol.

**PENDERFYNIAD**

**Penderfynwyd ychwanegu'r cymal canlynol i'r rhan berthnasol o'r Cyfansoddiad a basiwyd: ..''Neu, mewn achosion eithriadol, gan 2 neu 3 aelod o'r Cydbwyllgor Ymgynghorol''.**

Dechreuodd y cyfarfod am 4.00yh a daeth i ben am 6.30yh

____________________________

**CADEIRYDD**

# Eitem 6

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | 17 Tachwedd 2021 |
| **TEITL** | Awyrennau dros AHNE Llŷn |
| **PWRPAS** | Rhannu Gwybodaeth |
| **AWDUR** | Morus Llwyd Dafydd Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr wybodaeth |

1.0 **CYFLWYNIAD**

1.1 Mae'r adroddiad hon yn deillio o gyfarfod diwethaf y Cydbwyllgor Ymgynghorol a gynhaliwyd ar Mai 26 2021.

1.2 Penderfynwyd ysgrifennu llythyr fel Cydbwyllgor er mwyn datgan pryder am y sŵn gan awyrennau o RAF Y Fali yn hedfan dros Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn.

1.3 Fel mae'n digwydd roedd cwestiwn seneddol wedi ei ofyn i Jeremy Quin, gan yr aelod seneddol Hywel Williams ynglŷn ar sŵn awyrennau Texan T1. Yn yr ateb gan yr ysgrifennydd amddiffyn gwladol, Jeremy Quin, nodwyd bod hedfan awyrennau dros y môr bellach wedi awdurdodi, y Texan T1 yn benodol, ond yn eithrio cyfnodau lle mae'r môr tu hwnt o arw. Nodwyd y bydd rhaid wrth gwrs hedfan y Texan T1 dros dir ar adegau, er mwyn hyfforddi y peilotiaid, ag os bydd traffig awyr dros y môr.

**2.0 YMATEB SWYDDOGOL**

2. 1 Cafwyd ymateb i lythyr y Cydbwyllgor am y mater gan Dave Williams, arweinydd sgwadron yn y Fali, yn nodi nad oedd yn credu y fod yna gyfyngiadau ar hedfan awyrennau dros Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol na chwaith Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig na'r Parciau Cenedlaethol. Nododd Dave Williams hefyd eu bod nhw yn gwneud popeth o fewn eu gallu i hyfforddi dros y môr lle bo hynny yn bosibl, ag i wasgaru'r sŵn yn deg ar adegau arall.

2.2 Er gwybodaeth fe ddywedodd Jeremy Quin hefyd fod yr RAF am gynyddu lefelau ymgysylltu â'r cymunedau y maent yn ymgymryd â nhw, a cyhoeddi gwybodaeth mwy rhagweithiol ynghylch gofod awyr, prosesau awdurdodi hedfan, a'i rhaglen hedfan ar eu gwefan swyddogol.

**3.0 ARGYMHELLIAD**

3.1 Gofynnir i'r Aelodau dderbyn yr wybodaeth.

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | 17 Tachwedd 2021 |
| **TEITL** | GwyrddNi |
| **PWRPAS** | Rhannu Gwybodaeth |
| **AWDUR** | Elis Smits, Swyddog Prosiect GwyrddNi |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr wybodaeth |

1.0 **GWYRDD-NI**

1.1 Yn ddiweddar mae mudiad Newid Hinsawdd newydd wedi ei sefydlu yng Ngwynedd o'r enw GwyrddNi. Mae'r mudiad yn gweithredu mewn 5 ardal yn cynnwys Penrhyn Llŷn.

1.2 Gan fod hwn yn bwnc amserol ac yn fater a fydd o ddiddordeb i aelodau'r Cydbwyllgor amgaeir mwy o wybodaeth am GwyrddNi yn yr atodiad. Efallai y bydd yn bosibl mynychu cyfarfod o'r Cydbwyllgor yn y dyfodol i roi diweddariad ar y prosiect.

CREU • CYMUNEDAU • GWYRDD

# GWYRDDNI

COMMUNITY • CLIMATE • ACTION

Mudiad newid hinsawdd cymunedol newydd sbon ydi GwyrddNi. Mae'n dod â phobl ynghyd mewn pum ardal yng Ngwynedd i drafod, dysgu a gweithredu yn lleol ar newid hinsawdd, ac yn gwneud hynny mewn partneriaeth â sefydliad cymunedol ym mhob achos. Yma ym Mhen Llŷn, Ynni Llŷn yw'r partner. Mi fydd GwyrddNi hefyd ar waith yn Nyffryn Nantlle, Dyffryn Ogwen, Blaenau Ffestiniog a Dyffryn Peris.

Bwriad y mudiad - sy'n cael ei ariannu gan Y Loteri Genedlaethol - ydi dod â phobl at ei gilydd i weithredu yn lleol ar newid hinsawdd, boed hynny ar ffurf plannu coed, sefydlu mentrau egni adnewyddadwy i ddefnyddio adnoddau naturiol Llŷn, prynu cerbydau trydan i bawb eu defnyddio neu rywbeth hollol wahanol. Bydd GwyrddNi yn cynnal pedwar Cynulliad Hinsawdd yn Llŷn yn ystod 2022-2023 er mwyn rhoi cyfle i ni drafod a dysgu, cyn torchi llewys i greu cynlluniau ac yna eu rhoi ar waith cyn gynted â phosib, a hynny, wrth gwrs, gan sicrhau bod y budd yn dod yn ôl i gymunedau Llŷn.

Wrth gyd-greu a chyd-wireddu ein syniadau a'n cynlluniau ein hunain i fynd i'r afael â newid hinsawdd, y gobaith yw y byddwn ni, fel trigolion y cymunedau hyn, yn magu hyder a ffydd yn ein gallu i fynd i'r afael â materion eraill sydd yn bwysig i ni, waeth bynnag eu maint.

Wrth i'r mudiad ddatblygu byddwn yn cefnogi ein pum cymuned i adeiladu ymhellach ar eu gwaith, gan wireddu eu cynlluniau i weithredu ar newid hinsawdd, beth bynnag yr ydynt - mae'r penderfyniadau hynny yn llwyr yn nwylo'r gymuned.

Mae Elis Smits wedi ei benodi yn Hwylusydd Cymunedol GwyrddNi ym Mhen Llŷn. Un o Mynytho ydi Elis. Astudiodd Elis radd mewn Daearyddiaeth yng Nghaer a Rheolaeth Amgylcheddol ym Mhrifysgol Bangor. Ar ôl ei astudiaethau, bu'n trafeilio ac yn gweithio yn Awstralia a Canada, cyn dod yn ôl i weithio yn Spar Pwllheli. Yn ddiweddarach bu Elis yn gweithio fel Cydlynydd Partneriaeth Natur Gwynedd, cyn ymuno â GwyrddNi.

Dros y misoedd nesaf fe fydd Elis yn cynnal trafodaethau a sgyrsiau ar hyd a lled y penrhyn, gydag unigolion, grwpiau, sefydliadau a mudiadau eraill er mwyn rhannu gwybodaeth am GwyrddNi a Chynulliadau Hinsawdd Llŷn, er mwyn ennyn diddordeb a sicrhau bod pawb o bobl Llŷn yn cael cyfle i fod yn rhan o'r mudiad amserol a chyffrous hwn.

**Gallwch ddisgwyl clywed gan Elis dros y misoedd nesaf, neu mae croeso i chi gysylltu ag o ar: Elis@deg.cymru / 07825515171**

**@GwyrddNi**   [www.deg.cymru/gwyrddni](www.deg.cymru/gwyrddni)

CREU • CYMUNEDAU • GWYRDD

# GWYRDDNI

COMMUNITY • CLIMATE • ACTION

GwyrddNi is a brand new climate change movement. It will bring people together in five areas of Gwynedd to discuss, share and act locally to tackle climate change, and doing it in partnership with a Community-based organisation in each area. Here in the Llŷn Peninsula, Ynni Llŷn is the partner. GwyrddNi will also be working in Dyffryn Nantlle, Dyffryn Ogwen, Blaenau Ffestiniog and in Dyffryn Peris.

The aim of the movement - funded by The National Lottery- is to bring people together to take local action on climate change, perhaps by planting trees, establishing a renewable energy enterprise to utilise the natural resources the Llŷn provides, purchasing an electric vehicles for everyone to use, or something completely different. GwyrddNi will hold four Climate Assemblies in Llŷn in 2022-2023, creating an opportunity for us to discuss and learn together, before turning our thoughts into plans that we can carry out as soon as possible. In doing so, always ensuring that any benefits are returned to the local communities of Llŷn.

We hope that by cooperatively creating and implementing our own ideas and initiatives to address climate change, we will feel empowered and more confident in out ability to address other issues that matter to us.

As the movement grows and develops we will support our five communities to build on the actions taken in the first phase, making their climate action plans a reality, whatever they may be - those decisions are yours, the people of Llŷn.

Elis Smits has been appointed as GwyrddNi's community facilitator for Pen Llŷn. Elis is originally from Mynytho. He completed a degree in Geography at Chester and Environmental Management at Bangor University. After his studies, he travelled and worked in Australia and Canada, before coming back to work in Spar, Pwllheli. Recently, Elis worked as Natur Gwynedd's Partnership Coordinator, before joining GwyrddNi.

Over the next few months, Elis will be holding discussions and conversations across Llŷn with individuals, groups and organisations to share information about GwyrddNi and the Llŷn Climate Assemblies, in order to create an element of interest and ensure that everyone from the Llŷn has the opportunity to be part of this timely and exciting movement. We hope you'll join us on this journey.

**You can expect to hear from Elis over the next couple of months, or you are more than welcome to contact him on: elis@deg.cymru/ 07825515171**

**@GwyrddNi** [www.deg.wales/gwyrddni](www.deg.wales/gwyrddni)

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | Tachwedd 17eg 2021 |
| **TEITL** | Dynodiad Awyr Dywyll |
| **PWRPAS** | Gwybyddu Aelodau a cheisio cefnogaeth |
| **AWDUR** | Swyddog AHNE |
| **ARGYMHELLIAD** | Cefnogi cais am statws Parc Awyr Dywyll |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Ers peth amser mae'r Uned AHNE wedi bod yn gweithio tuag at geisio am statws Awyr Dywyll Rhyngwladol ar gyfer ardal AHNE Llŷn.

1.2 Y cam cychwynnol oedd comisiynnu Arolwg Awyr Dywyll er asesu pa mor dywyll oedd awyr y nos yn yr ardal a faint o lygredd goleuadau oedd yn bodoli. Dangosodd yr arolwg yma, a ariannwyd gan Llywodraeth Cymru, fod awyr y nos yn dywyll iawn mewn rhannau o Lŷn ac mai ychydig iawn o lygredd oedd yn bodoli.

1.3 Yn dilyn cyflwyniad fe drafodwyd y posibilrwydd o ymgeisio am ddynodiad awyr dywyll i AHNE Llŷn yn y cyfarfod yn mis Tachwedd 2020 ond bryd hynny nid oedd digon o aelodau yn bresennol i wneud penderfyniad.

## 2.0 PROSIECT "NOS"

2.1 Mae Prosiect "Nos" wedi ei sefydlu ar y cyd gyda AHNE Ynys Môn, AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a Pharc Cenedlaethol Eryri (sydd eisioes wedi derbyn dynodiad Gwarchodfa Awyr Dywyll). Yn dilyn ceisiadau llwyddiannus am gyllid penodwyd Swyddog Prosiect Awyr Dywyll – Dani Robertson.

2.2 Bwriad prosiect Nos yw cydweithio i gynnal, gwarchod a hyrwyddo awyr dywyll y nos yn yr ardaloedd a gweithio ar statws rhyngwladol Awyr Dywyll i'r ardaloedd. Fel rhan o'r prosiect bydd monitro o'r awyr dywyll, codi ymwybyddiaeth am lygredd goleuadau a hybu arfer da a

chynnal digwyddiadau gwylio sêr. **Rhaid pwysleisio hefyd nad oes bwriad diffodd unrhyw oleuadau stryd fel rhan o'r prosiect.**

2.3 Eisioes mae'r Swyddog Prosiect wedi rhoi cyflwyniad i'r Cydbwyllgor ar y buddion o warchod yr awyr dywyll – yn amgylcheddol, economaidd ac yn gymdeithasol. Hefyd ar gais y Cydbwyllgor rhoddwyd gwahoddiad i bob Cyngor Cymuned/ Tref yn yr AHNE wylio'r cyflwyniad a holi cwestiynnau.Ni waneth llawer o gynghorau fanteisio ar y cyfle hwn ond derbyniwyd rhai negeseuon o gefnogaeth yn dilyn y cyflwyniad.

## 3.0 CAIS AM STATWS AWYR DYWYLL I AHNE LLŸN

3.1 Yr International Dark Sky Association (IDA) sydd wedi sefydlu y cysyniad o ardaloedd Awyr Dywyll ac yn rheoli y broses ddynodi. Mae gwahanol fathau o ddynodiadau yn bosibl – yn cynnwys statws Noddfa, Cymuned, Parc a Gwarchodfa. Mae staff yr Uned wedi cael cyfarfod ar lein gyda staff yr IDA ac maent yn gefnogol iawn i'r bwriad o wneud cais am statws Awyr Dywyll ar gyfer yr ardal hon.

3.2 Yn wreiddiol roedd Uned AHNE Llŷn yn bwriadu ymgeisio am statws Cymuned ar gyfer yr ardal. Fodd bynnag, yn seiliedig ar ganlyniadau monitro a thrafodaeth gyda'r IDA rydym o'r farn y byddai statws Parc Awyr Dywyll yn adlewyrchiad gwell o safon yr awyr dywyll yn yr ardal yn ogystal â rhoi mwy o statws i'r ardal.

3.3 Fel rhan o'r broses ymgeisio am y Statws Awyr Dywyll bydd angen paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol a chreu rhaglen o ddigwyddiadau i godi ymwybyddiaeth.

## 4.0 ARGYMHELLIAD

4.1 Cefnogi cais i'r IDA am ddynodiad Parc Awyr Dywyll ar gyfer AHNE Llŷn.

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | Tachwedd 17eg 2021 |
| **TEITL** | Prosiectau Cyfalaf AHNE |
| **PWRPAS** | Darparu gwybodaeth i aelodau |
| **AWDUR** | Swyddog AHNE |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr wybodaeth |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys newyddion am brosiectau cyfalaf AHNE Llŷn. Cynllun grant gan Llywodraeth Cymru i gefnogi prosiectau cyfalaf yn y Parciau Cenedlaethol a'r AHNE yw Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy.

1.2 Mae'r cynllun yn rhedeg ers sawl blwyddyn bellach ac mae nifer o brosiectau allweddol wedi eu gwireddu yn ei sgîl. Mae gwybodaeth am brosiectau AHNE Llŷn yn 2020-21 wedi ei gynnwys yn y rhifyn diweddaraf o Llygad Llŷn sydd wedi ei rannu i aelodau.

## 2.0 PROSIECTAU CYFALAF TCLC 2021-22

2.1 Y prosiectau ar gyfer y flwyddyn ariannol hon (2021-22) yw :

- Atgyweirio Trac Porth Meudwy, Aberdaron
- Gwelliannau yn ardal y Cei, Trefor
- Gwelliannau i gyfres o hawliau tramwy yn yr AHNE
- Adnewyddu toiledau Lôn Gam, Nefyn

2.2 Rhoddir diweddariad ar y prosiectau hyn yn y cyfarfod.

## 3.0 PROSIECTAU CYFALAF Y DYFODOL

3.1 Mae Swyddogion Adran Tirweddau Dynodedig a Mynediad i Gefn Gwlad, Llywodraeth Cymru wedi awgrymu y bydd cyllid cyfalaf ar gael i'r 5 AHNE a'r 3 Parc Cenedlaethol eto yn y flwyddyn ariannol nesaf. Ni fydd yn bosib cadarnhau hyn hyd y bydd cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23 wedi ei roi yn ei le.

3.2 Fodd bynnag mae swyddogion wedi nodi os bydd arian ar gael y bydd y themâu ar gyfer prosiectau yn parhau fel y flwyddyn bresennol sef:

- Bioamrywiaeth ac adfer natur
- Dadgarboneiddio
- Cymunedau gwydn a gwyrdd
- Twristiaeth Gynaliadwy

3.3 Mae canllawiau a rheolau ar gyfer y cynllun grant Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy yn cael eu paratoi ar hyn o bryd. Hefyd bydd proses o drafod syniadau gyda swyddogion a Thirweddau Dynodedig eraill cyn cyflwyno cynigion drafft ddechrau flwyddyn nesaf.

## 4.0 ARGYMHELLIAD

4.1 Derbyn yr wybodaeth.